

# Ar y Llwybr Ysgrifennu: Ymchwil a Methodoleg

Susann Barraclough



**Ond dwi dal heb ddod o hyd i'r  
hyn dwi'n edrych amdano...**



# Draw atoch chi



**Meddylwch am bwnc sydd wedi'ch arwain i wneud ymchwil yn ystod y 7 diwrnod diwethaf.**

# Mae ymchwil yn fater dydd-i-ddydd


- Cefnogi dadleuon
- Datrys problemau
- Dod yn fwy gwybodus
- Cael eich ysbrydoli
- Dysgu mwy am bwnc
- Meddwl yn ofalus am gwestiynau yr ydym am eu dilyn
- Ymgysylltu â syniadau pobl eraill
- Ymuno â'r sgwrs ehangach

# Draw atoch chi



**Beth sy'n gwneud cwestiwn ymchwil da?**

# Ystyriaethau ar gyfer Cyd-destun



# Eiliadau o Ysbrydoliaeth

Fflach

Sbardun

'Dyna  
fe!'

Epiffani


Bwlb  
golau

# Dylunio Cwestiwn Ymchwil

- Chwiliwch am bwnc sydd o ddiddordeb i chi ac yr hoffech ddysgu mwy amdano
- Cysylltwch y cwestiwn â'ch astudiaethau presennol/dyfodol
- Dod yn gyfarwydd â pheth ymchwil sydd eisoes yn bodoli
- Ystyriwch y cwmpas – ddim yn rhy gyfyng nac yn rhy eang
- Methodoleg



# Enghraifft



Merched mewn chwaraeon



Pêl-droed merched yn y DU



Anafiadau ymhlith merched sy'n chwarae pêl-droed yn y *Super League*



Patrymau anafiadau ymhlith merched sy'n chwarae pêl-droed yn y *Super League* o gymharu â'u cymheiriaid gwrywaidd

# Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i Gynhyrchu Syniadau

## **Awgrym:**

Cynhyrchu syniadau teitl ar gyfer prosiect ymchwil ar y pwnc o chwaraewyr pêl-droed benywaidd yn y DU.

# Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i Gynhyrchu Syniadau

## Teitlau Cymdeithasegol:

- Effaith Gymdeithasol Pêl-droed Merched yn y DU
- Archwilio Rhyw a Chyfranogiad ym Mhêl-droed y DU

## Teitlau Maes Penodol:

- Ymchwiliad i Wahaniaethau Cyflog ac Amodau Gwaith Pêl-droedwyr Benywaidd yn y DU
- Golwg Beirniadol ar y Llwybr Datblygu ar gyfer Darpar Bêl-droedwyr Benywaidd yn y DU
- Archwiliad o Gynrychiolaeth y Cyfryngau o Bêl-droed Merched yn y DU

# Termau Chwilio sy'n Ffrwydro

Beth yw **effaith** Brexit ar  
**fusnesau'r DU**?

**Draw atoch chi**

## Termau Chwilio sy'n Ffrwydro

Beth yw effaith ariannol  
newidiadau i reoliadau masnachu  
ers Brexit ar fusnesau amaethyddol  
Cymru?

# Methodoleg: Ble i ddechrau?

## Mae manteision ac anfanteision i fyfyrwyr sy'n cynnal ymchwil

- Yn cynhyrchu cymhelliant uchel ymhlith myfyrwyr
- Yn cynhyrchu cyfranogiad uchel ymhlith myfyrwyr.
- Yn cynhyrchu mwy o ddysgu disgyblaeth-benodol dilys.
- Yn cynorthwyo meddwl yn feirniadol.
- Yn cynhyrchu straen uchel i fyfyrwyr.
- Yn cynhyrchu llawer mwy o waith i athrawon.
- Bydd yn rhaid i fyfyrwyr ddeall sut i ofyn cwestiwn y gellir ei ateb gan ddefnyddio dulliau dilys yn yr amser a roddir iddynt yn y dosbarth.
- Rhaid i ddulliau gael eu rheoli'n llym i reoleiddio prosesau sy'n cymryd llawer o amser.

# Sut i Fynd Ati i Ddewis Methodoleg

Cwestiwn ymchwil/Gosodiad

Ffynonellau o wybodaeth

Dulliau dadansoddi

Tuedd

# Math o Gynllun Ymchwil: Ansoddol

- Ateb cwestiwn 'pam?' (**PWRPAS**)
- Arsylwad, Symbol, Gair, ac ati (**MATH O DDATA**)
- Arsylwi a dehongli (**DULL**)
- Grwpio data cyffredin / dadansoddiad anstatudol (**DADANSODDIAD**)

Cyfweliadau

Grwpiau ffocws

Arolygon

Arsylwadau



# Math o Gynllun Ymchwil: Mesurol

- Ateb cwestiwn 'faint?' (**PWRPAS**)
- Canlyniad rhif/ystadegol (**MATH O DDATA**)
- Mesur a phrofi (**DULL**)
- Dadansoddiad ystadegol (**DADANSODDIAD**)

Mesuriadau

Arbrofion

Arolygon

Data a  
Chofnodion

# Dod o Hyd i Ffynonellau Priodol

## FFYNONELLAU EILAIDD

- Ffynonellau eilaidd yw testunau sy'n dadansoddi ac yn dehongli ffynonellau cynradd; maent yn cynnig cefndir a chyd-destun a all eich helpu i gael persbectif ar eich pwnc.
- Gallai ffynonellau eilaidd ar bwnc gynnwys llyfrau ysgolheigaidd ac erthyglau cyfnodolion am y pwnc, adolygiadau o gylchgronau a phapurau newydd, adroddiadau ymchwil y llywodraeth, neu lyfryddiaethau anodedig.

## FFYNONELLAU CYNRADD

- Dogfennau neu ddeunyddiau gwreiddiol, adroddiadau uniongyrchol, neu ymchwil maes fel cyfweliadau neu arsylwadau.

## Draw atoch chi

Pwnc: Penderfynu ar fanteision addysgol  
dysgu ar-lein.

Pa ddull neu ddulliau casglu fydddech chi'n eu dewis?

Pa fath o ganlyniadau fydddech chi'n chwilio amdanynt?


# Ffynonellau Ysgolheigaidd yn erbyn Ffynonellau Poblogaidd

- Ar gyfer y rhan fwyaf o aseiniadau academaidd, byddwch am ymgynghori â ffynonellau ysgolheigaidd: erthyglau, llyfrau, papurau cynhadledd, a gwefannau a ysgrifennwyd gan awdurdodau mewn maes penodol.
- Mae ffynonellau o'r fath fel arfer wedi'u hadolygu gan gymheiriaid, wedi'u gwerthuso gan arbenigwyr yn y maes cyn cyhoeddi.
- Maent yn mynd i fwy o ddyfnder nag y mae ffynonellau poblogaidd yn eu gwneud, gan ddyfynnu ymchwil a chynnwys dogfennaeth fanwl.
- Mae ffynonellau poblogaidd, ar y llaw arall, yn cael eu hysgrifennu gan newyddiadurwyr ac awduron ar gyfer cynulleidfa gyffredinol. Gallant gael eu gwirio gan ffeithiau, ond nid ydynt yn debygol o gael eu gwerthuso gan arbenigwyr cyn eu cyhoeddi.
- Gall erthyglau newyddion poblogaidd fod yn ffynhonnell dda o wybodaeth am faterion cyfoes gan eu bod yn cael eu cyhoeddi mor aml.
- Fel ffynonellau ysgolheigaidd, maent yn aml yn dyfynnu ymchwil, ond anaml y byddant yn dogfennu'r dyfyniadau hynny.

# Ffynonellau eraill

- Dogfennau llywodraeth a chyfreithiol
- Dogfennau cynradd a hanesyddol (llyfrau, ffotograffau, celfyddyd gain, arteffactau diwylliannol, mapiau)
- Gwefannau prifysgolion
- Cyfryngau cymdeithasol (ffynhonnell ar gyfer ffynonellau)
- Llyfrgelloedd!!!
- Cronfeydd data - cyffredinol a phwnc-benodol (DOAJ, MLA, EBSCO)

# Penderfynu a yw Ffynhonnell yn Ysgolheigaidd



# Ymchwil Maes

- Mae gwaith maes yn rhan annatod o ymchwil ansoddol ond gall hefyd gynhyrchu data meintiol.
- Mae gwaith maes yn cynnwys mynd i leoliad naturiol i ddeall pobl o fewn y cyd-destun hwnnw h.y. deall pobl yn eu lleoliad naturiol bob dydd.
- Mae gweithiwr maes yn debyg i blentyn sy'n dysgu trwy arsylwi a chymryd rhan yn y gweithgareddau o fewn ei amgylchedd.

# Ystyriaethau moesegol

- Mae'n rhaid i bawb yn y maes fod yn ymwybodol bod ymchwil yn cael ei gynnal
- Gellir cael y caniatâd hwn trwy ffurflenni caniatâd, posterï, sgysiau
- Dylai'r ymchwilydd gydnabod y gall materion moesegol godi ar unrhyw adeg yn ystod gwaith maes, o ystyried ei fod yn amgylchedd naturiol/heb ei reoli.
- Felly, dylai'r ymchwilydd fyfyrïo ar faterion moesegol trwy gydol ei astudiaeth.



### What is the study about?

I invite you to participate in a research project about the Advanced Skills Baccalaureate Wales.

The research project aims to gather information on your experience of studying the **ASBW Global Communities Project /Future Destinations Project** at Pembrokeshire College.

### Why have I been invited to take part?

Your responses will help the College in exploring how we can improve the learning experience within the ASBW and help learners to achieve excellent outcomes.

### Do I have to take part?

This information sheet has been written to help you decide if you would like to take part. It is up to you and you alone whether you wish to take part. If you do decide to take part you will be free to withdraw at any time without providing a reason, and with no negative consequences.

### What would I be required to do?

*You will be asked to complete a questionnaire which contains 4 sections:*

*Section 1:* Your ASBW Global Communities study experience


*Section 2:* Academic Writing

*Section 3:* Your Learning Environment

*Section 4:* General information

*I anticipate that the survey will take 20 minutes to complete.*

### What information about me or recordings of me ('my data') will you be collecting?

 I will not collect or process any personal data. All data you provide will be anonymous, which means that no-one could use any reasonable means to identify you from the data. As your data will be anonymous it cannot be withdrawn because we will not know which data is yours.

### How will this data be managed and used?


The anonymous data collected will be stored securely and only the researcher will be able to access it.


# Cyngor Da ar gyfer Cwestiynau Cyfweiliad/Arolwg

- Ystyriwch y pwrpas a sut y bydd y wybodaeth a gasglwyd yn cefnogi eich cwestiwn ymchwil.
- Rhoi cwestiynau mewn trefn yn rhesymegol neu'n thematig.
- Osgoi cwestiynau arweiniol neu gwestiynau sy'n arwain at atebion ie/na (caeedig).
- Defnyddio cwestiynau sy'n annog enghreifftiau (penagored).
- Defnyddio iaith glir a hygyrch.
- Canolbwyntio ar brofiad yr unigolyn.

# Arolygon

- Pwrpas – bydd hyn yn pennu sampl, maint y sampl a dyluniad y cwestiwn
- Dull dosbarthu
- Dull samplu







**Dibynadwyedd**



**Dilysrwydd**

# Ar y Llwybr Ysgrifennu: Ymchwil a Methodoleg

Susann Barraclough

